Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Cymunedau**
Dyddiad y cyfarfod	**9 Mawrth 2023**
Aelod Arweiniol / Swyddog	**Y Cynghorydd Win Mullen / Emlyn Jones**
Pennaeth Gwasanaeth	**Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad**
Awdur yr adroddiad	**David Shiel, Rheolwr Ardal AHNE**
Teitl	**Adroddiad Cynnydd ar Brosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I fonitro cynnydd yn erbyn amcanion Prosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych a sefydlwyd fel un o argymhellion Adolygiad Tân Mynydd Llantysilio yn 2019.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd Prosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych a sefydlwyd gan y Pwyllgor hwn fel argymhelliad o'r Adolygiad i Dân Mynydd Llantysilio 2019 ac yn dilyn penodi Swyddog Rhostir yn 2020 ac i amlygu ymrwymiadau'r prosiect yn y dyfodol.

2.2. Nodi ymrwymiadau Prosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych yn y dyfodol yng ngoleuni'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion gwreiddiol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Adroddiad diweddaru yw hwn a gofynnir i Aelodau wneud sylwadau ar y cynnydd a wnaed hyd yma ac i gefnogi'r ymdrechion i ehangu'r bartneriaeth bresennol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae adroddiad llawn wedi ei gynnwys fel atodiad - Yn gryno:

4.2. **Bwrdd Partneriaeth Rhostir** – Mae Bwrdd Prosiect Partneriaeth Prosiect wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth o Gyngor Sir Ddinbych (CSDd), Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) wedi ymuno â'r bwrdd partneriaeth hwn yn ddiweddar.

4.3. **Adfer Mynydd Llandysilio** - Gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru mae'r Swyddog Rhostir wedi arwain ar y rhaglen waith i adfer tua 15 hectar o'r ardaloedd ar fynydd Llandysilio a ddifrodwyd fwyaf gan dân 2018. Roedd y gwaith adfer yn defnyddio gwybodaeth o Adroddiad Penny Anderson a'r Asesiad o'r difrod a gomisiynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae nifer o dechnegau arbenigol wedi eu mabwysiadu i helpu i adfer yr ardaloedd a ddifrodwyd fwyaf. Cafodd tua 5 hectar ei drin gyda chymysgedd o laswellt yr ucheldir a thocion grug a chafodd hadau a gynaeafwyd o ardaloedd na ddifrodwyd ar y safle eu gollwng ar ardaloedd oedd wedi eu difrodi, gan ddefnyddio hofrennydd.

4.4. Mae tua 10 hectar wedi ei hadu drwy ddull hydro - gyda chymysgedd o hadau glaswellt yr ucheldir gyda deunydd organig yn cael ei chwistrellu ar yr ardaloedd oedd wedi eu difrodi fwyaf. Ardaloedd sydd wedi colli'r cyfanswm mwyaf o bridd gydag ychydig neu ddim adfywiad naturiol. Mae glaswellt a mwsogl yn dychwelyd yn raddol.

4.5. Mae 60 o leiniau monitro hirdymor wedi eu sefydlu ar hyd a lled y mynydd er mwyn parhau i fonitro adfywiad.

4.6. **Cynefin / rheoli llwyth tanwydd –** Mae'r prosiect wedi ymgymryd ag ymagwedd asesiad risg tanau gwyllt i dargedu rheoli.

4.7. Mae'r Swyddog Maes Rhostiroedd wedi hwyluso a threfnu gwaith dros ardaloedd allweddol o Fryniau Clwyd, Mynydd Llandysilio a Rhostir Llandegla. Torrwyd tua 140 hectar ar hyd a lled yr ardaloedd hyn er mwyn lleihau llwyth

tanwydd a gwella cynefin. Mewn rhai ardaloedd mae torri wedi digwydd i helpu gyda rheolaeth amaethyddol a rheoli stoc.

4.8. Mae'r Swyddog Rhostir hefyd wedi cefnogi gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod a sicrhau Cytundebau Rheoli Adran 16 ar rannau allweddol o Fynydd Llandysilio. Mae hyn yn darparu fframwaith i Gyfoeth Naturiol Cymru i gytuno ac ariannu gwaith y byddai'r tirfeddiannwr a phorwyr eisiau ei ddatblygu dros y 5 mlynedd nesaf. Cadarnhawyd y Cytundeb yn Hydref 2022 ac mae nifer o borwyr eisoes wedi gallu gwneud gwaith drwy'r fframwaith hwn.

4.9. Mae cyllid hefyd wedi ei sicrhau drwy raglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i gefnogi rheoli rhostiroedd ar hyd a lled Bryniau Clwyd. Mae'r cyllid wedi cefnogi porwyr Moel Famau i wneud gwaith ar Foel Famau, Moel Fenlli a Moel Dywyll. Mae hefyd wedi cefnogi'r porwyr ar Foel y Parc a gwaith ar Foel Arthur a Moel Findeg.

4.10. Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd - Sicrhawyd cyllid pellach drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd ar gyfer gwaith yn 2021 a 2022 a oedd yn canolbwyntio ar ardaloedd o rostir yn cynnwys mawn dwfn. Mae hyn wedi galluogi i waith gael ei wneud ar Rostir Llandegla i adfer mawndir. Torrwyd grug a choed dros ardal o 10 hectar. Hefyd aethpwyd ati i gau ffosydd - ail wlychu rhan bwysig o'r cynefin pwysig hwn a storio carbon.

4.11. **Gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân -** Mae'r prosiect wedi datblygu cydweithio agos gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae Cynllun Ymateb Tân aml-asiantaeth nawr mewn grym yn rhoi manylion am yr asedau a'r adnoddau sydd ar gael mewn achos o dân gwyllt. Mae nifer o ymarferion hyfforddi ar y cyd wedi eu cynnal, gyda staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yr AHNE a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio ar losgi dan reolaeth ym Mryniau Clwyd. Mae timau'r AHNE wedi cefnogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gyda nifer o achosion yn ymwneud â thân gwyllt gan weithio ochr yn ochr â chriwiau tân a rhannu offer arbenigol. Mae ffilm i hyrwyddo'r rheolau a'r rheolaethau yn ymwneud â llosgi dan reolaeth wedi ei gynhyrchu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys y Swyddog Rhostir a staff yr AHNE i helpu i hyrwyddo arfer da.

4.12. **Ymrwymiadau a Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol -** Mae'r hyn mae'r Prosiect wedi ei gyflawni hyd yma wedi dangos yr effaith o gael swyddog i gydlynu a hwyluso gwaith i leihau'r perygl o danau gwyllt drwy reoli llwyth tanwydd. Fe fydd rhaglen yn y dyfodol yn ceisio adeiladu ar y llwyddiannau hyn. Yn benodol, fe fydd yn:

- *Parhau i gefnogi gwaith rheoli rhostir ar hyd a lled Bryniau Clwyd, Mynydd Llandysilio a Rhosydd Llandegla ac ymestyn gweithgarwch i'r de tuag at ogledd y Berwyn.*
- *Cynnal perthnasoedd rhyng-asiantaethol drwy ymarferion hyfforddi parhaus ar y cyd a chydweithio gweithredol - yn benodol gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.*
- *Parhau i sicrhau cyllid cyfalaf i gyflawni rhaglen waith a fydd yn lleihau llwyth tanwydd, gwella cynefin a chysylltedd cynefinoedd a hybu gwytnwch ecolegol rhostiroedd i wrthsefyll tanau gwyllt yn y dyfodol.*
- *Ymgysylltu a chydweithio gyda chymunedau lleol, tirfeddianwyr, porwyr a ffermwyr yn ymwneud â thanau gwyllt a rheoli rhostiroedd.*
- *Cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chynnydd Cytundebau Rheoli i gefnogi gwaith ar safleoedd dynodedig.*
- *Parhau gyda rhaglen o fonitro ar gyfer y prosiect gan gynnwys cyflwr y cynefin a rhaglen waith a weithredir yn ardal y prosiect.*
- *Parhau gydag ymgyrch wybodaeth gyhoeddus i hyrwyddo ymddygiad cyfrifol a'r perygl o danau gwyllt yn arbennig yn yr Haf.*

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Mae'r Prosiect yn gorwedd o fewn Thema'r Cynllun Corfforaethol – **Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd** ac mae'n cyflawni yn erbyn Nod 3: *Cefnogi cymunedau i liniaru ac ymdopi ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy:*

Annog rheoli rhostiroedd er mwyn lleihau'r perygl o danau gwyllt, gan weithio gyda thirfeddianwyr, ffermwyr, cymunedau a chyrff statudol.

Drwy reoli rhostiroedd Sir Ddinbych, mae'r prosiect hefyd yn cyflawni yn erbyn Nod 1 Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd: *Cyflawni ein Strategaeth ar Newid Hinsawdd*

a Newid Ecolegol i ddod yn gyngor ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030, gan gynnwys:

Cynyddu'r cynefinoedd sydd ar gael ar gyfer peillio a bywyd gwyllt.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r Swydd Rhostir wedi ei ariannu ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae Sir Ddinbych eisoes wedi dangos ymrwymiad ariannu parhaus i'r swydd a'r prosiect. Yn 2020 fe wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ymrwymiad 3 blynedd i ariannu, a daw hyn i ben yn Awst 2023. Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau cyllid pellach i barhau gyda'r prosiect ac mae arwyddion cynnar yn dangos fod yna barodrwydd i barhau i gefnogi'r prosiect.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Ni chwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad cynnydd hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r adroddiad cynnydd hwn wedi ei seilio ar argymhellion o Bwyllgor Craffu Cymunedau blaenorol gyda chyfraniadau gan y cyhoedd ac asiantaethau partner.

8.2. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhostir yn darparu fframwaith ar gyfer ymgynghori gyda phartneriaid y prosiect a phorwyr.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer y gweithgarwch hwn mewn cysylltiad â'n partneriaid fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol blaenorol. Nid yw'r adroddiad hwn yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r cyngor ar y cam hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Fe ddaw'r Bartneriaeth bresennol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ben yn Awst 2023. Mae trafodaethau ar y gweill i geisio ymestyn y bartneriaeth hon.

10.2. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhostir yn goruchwylio'r materion a'r rhaglen waith sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adran 7.4.1 (d) ac (e) o Gyfansoddiad y Cyngor.